**Efrydiaeth Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol mewn Addysg**

Mae'n bleser gan Ysgol Addysg Prifysgol Bangor gynnig efrydiaethau ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru (WGSSS) (Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol) a ariennir yn llawn, gan ddechrau ym mis Hydref 2024.

**Disgrifiad o'r cynnig:**

Datblygu cwricwlwm wedi'i addasu o Therapi Ymddygiad Dilechdidol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau deallusol a datblygiadol.

Yng Nghymru, mae gan 1 o bob 6 o blant a phobl ifanc broblem iechyd meddwl y gellir ei diagnosio, sy'n effeithio'n sylweddol ar eu profiad o addysg, ac mae llawer mwy yn cael trafferth gyda Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phrofi problemau iechyd meddwl pan fyddant yn oedolion. O ganlyniad, mae'r Comisiynydd Plant wedi galw am gamau brys i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n profi anawsterau iechyd meddwl, yn enwedig yn dilyn pandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae problemau iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc sydd ag anableddau deallusol a datblygiadol yn aml yn cael eu hanwybyddu, yn cael eu tanddiagnosio, ac yn cael eu priodoli'n anghywir i anableddau deallusol a datblygiadol y person, er bod nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl yn y boblogaeth hon sawl gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol. Mae'n hysbys iawn bod Therapi Ymddygiad Dilechdidol yn ddull effeithiol o wella iechyd meddwl a lles ymysg pob poblogaeth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud gwaith rhagarweiniol addawol wrth bennu addasrwydd y cwricwlwm Therapi Ymddygiad Dialectig i'w ddefnyddio gydag unigolion sydd ag anableddau deallusol a datblygiadol mewn ysgolion. Canfu y gall addasu'r cwricwlwm hwn gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles, ac o ganlyniad mynediad at addysg o safon i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau deallusol a datblygiadol.

**Hyd yr astudiaeth:**

Mae hyd yr astudiaeth yn dibynnu ar brofiad ymchwil blaenorol ac anghenion hyfforddi, a fydd yn cael eu hasesu trwy gwblhau Dadansoddiad Anghenion Datblygu Cychwynnol ar y cam ymgeisio a Dadansoddiad Anghenion Datblygu Cychwynnol llawn cyn dyfarnu os yw'n llwyddiannus. Gall hyd yr astudiaeth amrywio o - 3.5 i 4.5 blwyddyn llawn amser (neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan amser).

**Lleoliad ymchwil mewn ymarfer:**

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr a ariennir gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru gwblhau lleoliad ymchwil mewn ymarfer a ariennir dros gyfanswm o dri mis. Bydd pob myfyriwr yn cael y cyfle i gwblhau lleoliad mewn sefydliadau academaidd, polisi, busnes neu gymdeithas sifil.

**Meini Prawf Mynediad:**

I dderbyn cyllid efrydiaeth Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru, rhaid bod gennych gymwysterau neu brofiad sy'n cyfateb i radd anrhydedd ar lefel dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch, neu radd meistr o sefydliad ymchwil academaidd yn y Deyrnas Unedig. Mae croeso hefyd i fyfyrwyr â chefndir academaidd anhraddodiadol wneud cais. Mae angen i ymgeiswyr, nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gael sgôr IELT o 6.5 neu uwch.

**Cymhwysedd:**

Mae ysgoloriaethau ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru ar gael i fyfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol. Gall hyd at 30% o'n carfan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol. Ni chodir y gwahaniaeth mewn ffioedd rhwng y gyfradd Deyrnas Unedig a'r gyfradd ryngwladol ar fyfyrwyr rhyngwladol. Dylai ymgeiswyr fodloni gofynion mynediad UKRI.

Mae Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Rydym yn croesawu ceisiadau gan holl aelodau o'r gymuned fyd-eang, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer astudiaethau llawn amser a rhan-amser, yn ogystal â cheisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn dod o gefndir academaidd traddodiadol.

**Asesu:**

Atgoffir ymgeiswyr i gyflwyno'r holl ddogfennau perthnasol (trawsgrifiadau, datganiad ategol, ac ati) erbyn y dyddiad cau. Oherwydd nifer y ceisiadau a dderbynnir, ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried. Gwahoddir ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer am gyfweliad. Fel rhan o'r broses gyfweld, gofynnir i ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ac ateb cyfres o gwestiynau gan y panel yn gyson ag ymarfer blaenorol ar y llwybr yn ystod Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru, ac a arweinir gan ymrwymiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithas Cymru.

Gellir cynnal cyfweliadau yn y cnawd, ond byddant hefyd ar gael dros Teams ar gyfer ymgeiswyr sy'n ffafrio'r fformat hwn.

Gall ymgeiswyr ddisgwyl clywed canlyniad eu cyfweliad fel rheol o fewn 2 wythnos.

**Sut i wneud cais:**

Dylid derbyn ceisiadau ddim hwyrach na 19/04/2024 gan gynnwys yr holl ddogfennau gofynnol.

Rhaid cyflwyno pob cais trwy – https://apps.bangor.ac.uk/applicant/

Yn y system ymgeisio ar-lein, o dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch 'Ysgoloriaethau Hysbysebu Prifysgol Bangor ...'

Ymchwil ol-radd
(PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)

Project Ymchwil eich hun...

Ysgoloriaethau â Hysbysebwyd gan Prifysgol Bangor...

Yna dewiswch ‘**Efrydiaeth (WGSSS) Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol mewn Addysg 2024 - Datblygu cwricwlwm wedi’i addasu o Therapi Ymddygiad Dilechdidol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau deallusol a datblygiadol’**.

Dylech gynnwys y dogfennau canlynol gyda'ch cais:

1) Llythyr eglurhaol (hyd at ddwy dudalen)

Rhaid i'r llythyr eglurhaol gynnwys y pwyntiau bwled canlynol fel is-benawdau:

- Enwch yr efrydiaeth gydweithredol y gwneir cais amdani a nodwch eich rhesymau a
- chymhelliant i wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor, ar y llwybr Addysg.
- Rhowch fanylion am eich dealltwriaeth, a'ch disgwyliadau o wneud astudiaeth ddoethurol.
- Rhowch fanylion am eich diddordebau academaidd yn gyffredinol, ac yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â'ch
- ymchwil arfaethedig.
- Gan dynnu ar eich cefndir eich hun (gan gynnwys eich profiadau bywyd, llwybr i’r
- brifysgol, profiadau gwaith neu wirfoddoli) nodwch yn gryno pam eich bod yn barod
- i ymgymryd â PhD nawr, a sut fyddwch yn ffynnu o ganlyniad i gyllid PhD. Gallwch
- gynnwys, er enghraifft, heriau personol yr ydych wedi’u goresgyn, neu gyflawniadau yr ydych
- yn falch ohonynt o ran eich gwaith, astudiaethau, neu brofiadau bywyd, a sut mae’r rhain yn cyd-fynd â’r sgiliau sydd eu hangen
- i lwyddo mewn rhaglen PhD. Gall heriau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nodweddion

· a warchodir, statws economaidd-gymdeithasol a bod yn ddarpar fyfyriwr cenhedlaeth gyntaf neu

· wedi cael profiad o ofal

· Gan fyfyrio ar eich cefndir eich hun a/neu ddull arfaethedig o astudio PhD a'r

· cyfleoedd y bydd hynny'n ei gynnig, sut fyddwch chi'n cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn y gymuned

· PhD?

2) CV academaidd (hyd at ddwy dudalen)

3) Cynnig ymchwil

Yn achos efrydiaethau cydweithredol, dylai'r cynnig adeiladu'n uniongyrchol ar y disgrifiad amlinellol

a ddarparwyd. Ni ddylai'r cynnig fod yn hwy na 1000 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau

llyfryddiaethol. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:

· Teitl, amcanion a phwrpas yr ymchwil;

· Trosolwg ar y llenyddiaeth academaidd sy'n berthnasol i'ch maes;

· Cynllun/dulliau arfaethedig;

· Cyfraniadau academaidd eich ymchwil.

· Cyfeiriadau Llyfryddiaethol

4) Dau dystlythyr academaidd neu broffesiynol

Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â chanolwyr eu hunain a chynnwys geirdaon gyda'u cais. Rhaid i'r geirda fanylu ar gryfderau ymchwil yr ymgeisydd.

5) Tystysgrifau gradd a thrawsgrifiadau (gan gynnwys cyfieithiadau os yn berthnasol)

6) Os yw'n berthnasol, prawf o gymhwysedd iaith Saesneg (gweler gofynion mynediad y sefydliad)

**Cyllid:**
Mae'r efrydiaeth a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cynnwys ffioedd dysgu, cyflog byw di-dreth blynyddol yn unol ag isafswm cyfraddau UKRI (£18,622 ar hyn o bryd) ac mae'n cynnwys mynediad at Grant Cefnogi Hyfforddiant Ymchwil. Os oes gennych anabledd, efallai y bydd gennych hawl i Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) ar ben eich efrydiaeth.